**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 27 TACHWEDD 2024 YN CP2**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd), Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd), Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand a Bethan Williams Price

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Prif Weithredwr; Pennaeth Polisi a Rhaglenni; Rheolwr Cyllid; Swyddog Cymorth Tîm.

**Ymddiheuriadau:** Karen Jones (Comisiynydd)

**Amser dechrau: 10:10**
**Amser gorffen: 11:21**

**1. Datganiadau Buddiannau**

**1.1.** Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

**2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod am ei chyfarfod gyda Karen Jones.

**2.2.** Rhoddodd y Cadeirydd wybod am y newid i'r adrannau cyrff a noddir.

**2.3.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiwn am eu sylwadau ar y rhaglen hyfforddi newydd i Gomisiynwyr a **nododd** fod cyfarfod mis Chwefror wedi'i glustnodi ar gyfer rhywfaint o'r hyfforddiant hwn.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn ar gynhaliwyd ar 30 Hydref**

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2024 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newidiadau.

**3.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch pwynt 4.6 o gyfarfod diwethaf y Comisiwn.

**4. Materion yn Codi**

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddaredig ar y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1) Nodwyd** na chafodd y Comisiwn unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng 23 Hydref ac 19 Tachwedd 2024.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cwblhau'r holl Arolygon Cymunedol y mae wedi'u cynnal ac y bydd Sir Benfro yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** bod y symud swyddfa wedi digwydd dros gyfnod o bythefnos o'r wythnos yn dechrau ar 11 Tachwedd ac y bydd y brydles ar yr hen adeilad yn dod i ben ddiwedd mis Tachwedd. Erbyn hyn, bydd holl gyfarfodydd y Comisiwn yn cael eu cynnal yn CP2 / ar Teams.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** y darparwyd ymateb i Gymdeithas yr Iaith yn dilyn y cyfarfod ym mis Hydref ac nad yw'r Comisiwn wedi cael ymateb arall.

**4.6.** Cafwyd trafodaeth ynghylch mynediad at y 4ydd llawr i gyflogeion Llywodraeth Cymru.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Nodwyd** y bydd cyfarfod nesaf y bwrdd gweithredu yn cael ei gynnal ym mis Ionawr.

**5.2.** **Nodwyd** na chafwyd unrhyw gydnabyddiaeth gan LIC i'r llythyr a anfonwyd gan y Cadeirydd am y Platfform Gwybodaeth.

**5.3.** **Nodwyd** bod yr ymarfer recriwtio Comisiynwyr wedi dod i ben am y tro ac y bydd swydd ddisgrifiad ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) yn cael ei ddrafftio cyn hir.

**5.4.** Cafwyd trafodaeth ynghylch y Platfform Gwybodaeth, ei gyfyngiadau posibl a phroblemau posibl gan gynnwys hygyrchedd a chyfrifoldebau Swyddogion Canlyniadau. **Nodwyd** y byddai angen i'r Platfform Gwybodaeth fod ar waith erbyn etholiadau 2026.

**5.5.** Cafwyd trafodaeth ynghylch amserlen cyfarfodydd 2025, gan gynnwys y PLIA.

**5.6.** **Gweithredu:** Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddrafftio swydd ddisgrifiad ar gyfer Cadeirydd y PLIA.

**5.7.** **Gweithredu:** Prif Weithredwr i lunio dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer 2025, gan gynnwys y PLIA.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** Trafodwyd eitem 5: Y Rhaglen Bontio ac eitem 6: Y Flaenraglen Waith gyda'i gilydd.

## 7. Adroddiad ar Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Monitro'r Gyllideb dyddiedig 27 Tachwedd 2024 gan y Rheolwr Cyllid, a oedd yn dangos sefyllfa'r gyllideb hyd at ddiwedd mis Hydref 2024.

**7.2.** **Nodwyd** nad oedd unrhyw orwariant yn y gyllideb ar ddiwedd mis Hydref 2024.

**7.3.** **Nodwyd** bod y tanwariant mwyaf yn y cyllidebau staffio a phensiynau, ond y byddai'r tanwariant hwn yn gostwng yn sylweddol ym mis Rhagfyr gan y byddai'r codiad cyflog diweddar i staff yn cael ei roi ar waith ar gyfer cyflogau staff ym mis Tachwedd.

**7.4.** **Nodwyd** bod tanwariant sylweddol wedi'i gofnodi hyd yn hyn yng nghyllideb costau ffioedd Aelodau, a bod hyn yn debygol o barhau oni bai bod llwyth gwaith Aelodau'r Comisiwn yn cynyddu yn y chwarter olaf.

**7.5.** **Nodwyd** oherwydd i'r symud swyddfa ddigwydd yn hwyrach na'r disgwyl, y byddai'n debygol y byddai swm cymedrol o gyllid dros ben yn y gyllideb adeiladau yn y dyfodol.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg CDFfC dyddiedig 27 Tachwedd 2024.

**8.2.** **Nodwyd** bod risg CR3 wedi'i diwygio oherwydd i'r symud swyddfa gael ei gwblhau'n llwyddiannus. **Cytunwyd** i ddiddymu risg CR3.

**8.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch agwedd risg diogelwch risg CR3, a oedd yn parhau o hyd. **Cytunwyd** y byddai'r risg hon yn cael ei hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Gweithredol.

**8.4.** **Cytunwyd** ar y Gofrestr Risg, yn amodol ar ddiwygiadau.

**8.5.** **Gweithredu:** Risg CR3 i'w thynnu oddi ar y Gofrestr Risg a'r elfen risg sy'n weddill i'w throsglwyddo i'r Gofrestr Risgiau Gweithredol.

## 9. Polisi Rheoli Risg CDFfC

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Rheoli Risg CDFfC. **Cytunwyd** i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf er mwyn caniatáu sylwadau gan ARAC.

**9.2.** **Gweithredu: Polisi Rheoli Risg CDFfC i'w ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis nesaf.**

**10. Cofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC**

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Gofrestr Risg Blaenraglen Waith CDFfC.

**10.2.** **Cytunwyd** ar Flaenraglen Waith CDFfC ac y byddai'n cael ei chyfuno â'r gofrestr risg gorfforaethol.

**11. Polisi Rhoddion, Gwobrau a Lletygarwch**

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Polisi Rhoddion, Gwobrau a Lletygarwch.

**11.2.** **Cytunwyd** ar y Polisi Rhoddion, Gwobrau a Lletygarwch.

**12. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon.

**12.2.** **Nodwyd** bod Adroddiad Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Abertawe wedi'i gyhoeddi.

**12.3.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn dal i gytuno ar ddyddiad cyhoeddi ar gyfer Adroddiad Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Sir Benfro ac y caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi yn gynnar y flwyddyn nesaf.

**12.4.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am yr Adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin o hyd, sy'n cynnal eu Harolwg Cymunedol eu hunain. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn, maes o law.

**12.5.** **Nodwyd** bod Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn cynnal eu Harolygon Cymunedol eu hunain ar hyn o bryd.

**12.6.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn aros am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru o hyd ynghylch y polisi Maint Cynghorau, a fydd yn ffurfio rhan o bolisi ac arfer y Rhaglen Arolygon Etholiadol.

**12.7.** **Nodwyd** y bydd Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Senedd yn cael ei gyhoeddi ar 17 Rhagfyr ac y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal tan fis Ionawr.

**12.8.** **Gweithredu**: Prif Weithredwr i gysylltu â Lisa James i fynd ar drywydd y data sy'n weddill ar gyfer Polisi Maint Cynghorau'r Rhaglen Arolygon Etholiadol.

**13. Amlinelliad o'r Adroddiad Penderfyniadau Terfynol**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r amlinelliad o'r Adroddiad Penderfyniadau Terfynol.

**13.2.** Cafwyd trafodaeth ynghylch pwynt 3.2 yr Adroddiad amlinellol. **Cytunwyd** y dylai'r enwau Cymraeg ddod o flaen yr enwau Saesneg yn yr Adroddiad.

**13.3.** Cafwyd trafodaeth ynghylch rhai awgrymiadau o ran arddull yn yr Adroddiad. Bydd y Comisiynydd yn anfon diwygiadau at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i'w cynnwys yn yr adroddiad.

**13.4.** **Cytunwyd** ar y testun yn yr Adroddiad amlinellol, yn amodol ar fân newidiadau.

**13.5.** **Gweithredu:** Pennaeth Polisi a Rhaglenni i anfon copïau o'r Adroddiad Penderfyniadau Terfynol at y Comisiynwyr. Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfathrebiadau arfaethedig ar gyfer cyfnod ymgynghori nesaf y Senedd.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Ystyriwyd y Calendr Digwyddiadau.

**14.2.** **Nodwyd** bod cyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr wedi'i ganslo.

**14.3.** Ystyriwyd fformat cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol, a bydd cyfarfod mis Chwefror yn cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb er mwyn galluogi hyfforddiant i Gomisiynwyr. **Nodwyd** y caiff y cyfarfod ym mis Mawrth ei gadeirio gan y Dirprwy Gadeirydd.

**15. Unrhyw fater perthnasol arall**

**15.1** Ni nodwyd unrhyw fater perthnasol arall.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 29 Ionawr 2025